



Ein cyf/Our ref DB/0598/21

Delyth Jewell AS  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1SN

5 Hydref 2021

Annwyl Delyth,

## EFFAITH GWERTHU BAD WOLF

Diolch am eich llythyr dyddiedig 23 Medi at Weinidog yr Economi, Vaughan Gething AS, mewn perthynas â gwerthu Bad Wolf. Rwyf wedi ymateb i'ch cwestiynau isod.

*Yn ystod cyfarfod y Pwyllgor gwnaethoch nodi bod dros £8.5 miliwn wedi cael ei dalu, o'r dyfarniad gwreiddiol i'r cwmni o £9 miliwn. Allech gadarnhau sut y cafodd hwn ei rannu rhwng grantiau a benthyciadau?*

Roedd y cytundeb gyda Bad Wolf yn cynnwys blaenswm ad-daladwy o £4.5 miliwn, y gellid ei newid yn grant pe bai allbynnau allweddol yn cael eu cyflawni (gwariant cychwynnol yng Nghymru gwerth £54 miliwn), a grant gwerth £4.5 miliwn i'w dalu ar ôl cyflawni allbynnau allweddol (gwariant ychwanegol yng Nghymru gwerth £54 miliwn, gan wneud cyfanswm o £108 miliwn) Cytunwyd ar ofyniad ychwanegol i wario £25 miliwn yng Nghymru yn dilyn prynu'r stiwdio, gan olygu bod angen gwario cyfanswm o £133 miliwn yng Nghymru er mwyn bodloni telerau'r prosiect. Hyd yn hyn mae £8.5 miliwn wedi cael ei dalu o'r dyfarniad gwreiddiol o £9 miliwn, ac mae'r cwmni wedi dangos gwariant yng Nghymru o £127.9 miliwn. O dan delerau'r cytundeb, mae'r benthyciad yr oedd rhaid ei ad-dalu wedi cael ei drosi'n grant. Mae gweddill y gwariant yng Nghymru a nodwyd yn cael ei wirio gan swyddogion ar hyn o bryd, gyda golwg ar dalu gweddill y grant. Felly, disgwylir y bydd y prosiect wedi bodloni holl dargedau gwariant ac amodau'r grant erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2021/2022.

*A yw Llywodraeth Cymru yn disgwyl adennill unrhyw arian sy'n ddyledus, boed yn grantiau neu fenthyciadau ar ôl i Bad Wolf gael ei werthu?*

Roedd angen talu llog ar y blaenswm ad-daladwy o £4.5 miliwn, a oedd yn cronni nes i Bad Wolf gyflawni'r gwariant cychwynnol yng Nghymru o £54 miliwn. Cyflawnodd Bad Wolf y targed hwn o £54 miliwn y llynedd, a swm y llog a oedd wedi cronni ar yr adeg honno oedd £1.06 miliwn. Rydym wedi cytuno ar gynllun ar gyfer ad-dalu, ac mae Bad Wolf wedi bod yn

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru)  
[Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales](mailto:Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

brydlon wrth wneud y taliadau rheolaidd tuag at dalu'r balans. Bydd y taliad terfynol yn cael ei wneud ym mis Awst 2025.

*Allwch roi manylion unrhyw gytundebau contractiol eraill sy'n bodoli ar hyn o bryd rhwng Llywodraeth Cymru a Bad Wolf, a nodi i ba raddau mae'r ymrwymïadau hyn wedi cael eu cyflawni?*

Ym mis Ebrill 2021, gwnaeth Cymru Greadigol gytundeb ar wahân, y tu allan i'r cytundeb gwreiddiol, i sicrhau bod y drydedd gyfres o 'His Dark Materials' yn cael ei chynhyrchu yng Nghymru. O dan y cytundeb hwn, roedd yn ofynnol i Bad Wolf ddangos gwariant o £21 miliwn yng Nghymru, er mwyn cael dyfarniad grant o £2 miliwn. Mae ffilmio wedi dechrau, a hyd yn hyn nid yw unrhyw daliadau wedi cael eu gwneud o dan y cytundeb hwn.

*Allwch gadarnhau pa drefniadau sydd ar waith rhwng Llywodraeth Cymru a Bad Wolf, os oes rhai, mewn perthynas â pherchnogaeth Stiwdios Bad Wolf yng Nghymru. Os oes trefniadau ar waith, pa incwm sydd wedi cael ei greu ar gyfer Llywodraeth Cymru dros y pum mlynedd diwethaf?*

I gefnogi'r buddsoddiad yn Bad Wolf a dyfodol Bad Wolf yng Nghymru ymhellach, prynodd Llywodraeth Cymru adeiladau 1 a 2 ym Mharc Trident yng Nghaerdydd am y pris masnachol, sef £6.1 miliwn (heb TAW), ac ymgymryd â'r gwaith o baratoi'r cyfleuster er mwyn ei osod ar delerau masnachol i Bad Wolf Studios Wales Ltd (BSWL) i'w ddefnyddio fel stiwdio teledu a ffilm. Dechreuodd prydles Bad Wolf ar 31 Mawrth 2017 ac mae'r cyfleuster wedi'i osod ar delerau masnachol.

*Yn ystod cyfarfod y Pwyllgor, gwnaethoch nodi bod yr effaith mae Bad Wolf wedi'i chael ar y gadwyn gyflenwi wedi bod yn fuddiol ar gyfer economi Cymru. Allech roi amcangyfrif o nifer y swyddi sydd wedi cael eu creu, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, o ganlyniad i weithrediadau Bad Wolf? Allech hefyd roi amcangyfrif o gyfanswm yr effaith economaidd mae Bad Wolf wedi'i chael ar economi Cymru?*

Mad Bad Wolf wedi comisiynu adroddiad economaidd y disgwylir iddo ddangos yr effaith mae wedi'i chael ar y sector a sut mae wedi helpu'r sector i dyfu. Disgwylir i'r adroddiad hwn gael ei gyhoeddi ym mis Hydref, a bydd yn cael ei rannu'r â'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol. O ganlyniad i'r cymorth gan Lywodraeth Cymru rhagwelir y bydd dros £133 miliwn wedi cael ei wario ar gynhyrchu er budd economi Cymru.

*Allwch gadarnhau faint o gyllideb gynhyrchu 'o dan y llinell' Bad Wolf wedi cael ei gwario yng Nghymru yn ystod y pum mlynedd diwethaf (mewn punnoedd ac fel canran)?*

Erbyn 29 Medi 2021, roedd gwariant yng Nghymru gwerth £127.9 miliwn wedi cael ei gadarnhau, yn erbyn y grant sydd wedi cael ei dalu. O'r cyfanswm hwn mae tua £103.6 miliwn (81%) yn cael ei ystyried yn wariant 'o dan y llinell'.

*Pa ymrwymïadau y byddwch yn eu ceisio gan unrhyw berchnogion Bad Wolf yn y dyfodol y bydd yn parhau â'i weithrediadau yng Nghymru, gan gynnwys parhau â'i weithrediadau ym mae Caerdydd?*

Pan wneir cyhoeddiad ynghylch perchnogion newydd Bad Wolf, bydd Cymru Greadigol yn gofyn am gyfarfod cynnar â'r perchnogion newydd i drafod eu bwriadau ar gyfer Cymru a'u cynlluniau ar gyfer y stiwdio. Ar hyn o bryd nid ydym yn credu y bydd gwerthu Bad Wolf yn golygu y bydd y stiwdios yn gadael Cymru.

*A oes gennych unrhyw bryderon y bydd y perchnogion newydd yn penderfynu symud y gwaith cynhyrchu i leoliadau rhatach neu'r ardaloedd hynny sy'n rhoi cymhellion ariannol gwell?*

Yn ei hanfod mae pob math o waith cynhyrchu yn symudol, ac mae llawer o ranbarthau yn y DU a ledled y byd yn cynnig cymhellion. Fodd bynnag, mae Bad Wolf wedi adeiladu ei fusnes ar y diwydiant yng Nghymru, gyda chyflenwyr allweddol a chriw yr ymddiriedir ynddynt i weithio ar ei gynyrchiadau proffil uchel, a stiwdios o'r radd flaenaf. Mae'r cyhoeddiad diweddar y bydd Bad Wolf yn cydweithio gyda Russel T Davies ar y gyfres nesaf o Dr Who hefyd yn rhoi sicrwydd y bydd yn cadw cyfradd fawr o'i weithrediadau yng Nghymru. Mae Cymru Greadigol eisoes yn cynnig cymhellion deniadol drwy ei chynnig ar gyfer gwaith cynhyrchu. Mae'r cymhellion hyn yn gystadleuol pan fyddant yn cael eu hystyried ar y cyd â Chredyd Treth y DU, ac maent wedi bod yn llwyddiannus wrth ddenu stiwdios mawr a chynyrchiadau mawr eraill i Gymru, fel Netflix and Disney.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Dawn Bowden'.

**Dawn Bowden AS**

Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip